



## **Coronafeirws (COVID-19): Canllawiau dros dro ychwanegol ar gyfer partneriaethau Addysg Gychwynol Athrawon (AGA)**



ISBN Digidol 978 1 80038 624 2  
© Hawlfraint y Goron Mehefin 2020  
WG40740

## Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda llywodraethau eraill y DU i sicrhau dull cyson sy'n seiliedig ar iechyd y cyhoedd i ymateb i sefyllfa'r Coronafeirws.

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer partneriaethau Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) ac maent yn seiliedig ar gyngor a roddwyd eisoes ar lefel y DU mewn perthynas â phandemig y Coronafeirws. Mae'r canllawiau hyn yn diweddarau'r canllawiau ar AGA a gyhoeddwyd ar 9 Ebrill 2020 (sydd ar gael yn <https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-canllawiau-dros-dro-ar-gyfer-partneriaethau-addysg-gychwynnol-athrawon-aga>), a byddwn yn parhau i roi diweddariadau os bydd unrhyw beth yn newid.

## Canllawiau cyffredinol

Caiff canllawiau cyffredinol ynghylch y Coronafeirws eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ar eu gwefannau, <https://llyw.cymru/coronafeirws> a <https://icc.gig.cymru/>. Cânt eu diweddarau'n rheolaidd i adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf.

Mae Cyngor y Gweithlu Addysg wedi cael gwybod y bydd angen cymryd camau penodol, ac ystyrir na fydd unrhyw newidiadau y bydd angen eu gweithredu yn effeithio ar y gofynion o ran achredu rhaglenni o ystyried yr amgylchiadau eithriadol sydd wedi codi yn sgil COVID-19.

Rhaid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â'r canllawiau blaenorol sydd ar gael yn <https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-canllawiau-dros-dro-ar-gyfer-partneriaethau-addysg-gychwynnol-athrawon-aga>.

Mae'r canllawiau hyn yn diweddarau'r canllawiau i bartneriaethau AGA a gyhoeddwyd ar 9 Ebrill 2020. Bwriedir i'r rhain amlinellu'n fanylach y camau y bydd angen i bartneriaethau AGA eu cymryd, gan gyfeirio at:

- gefnogi myfyrwyr i ymgymryd â blwyddyn eu cyfnod sefydlu (sy'n berthnasol i fyfyrwyr sy'n disgwyl cyflawni Statws Athro Cymwysedig (SAC) erbyn Haf 2020 drwy raglenni AGA ôl-raddedig neu israddedig amser llawn, Rhaglen Athrawon Graddedig neu Teach First)
- myfyrwyr 2019/20 sy'n dychwelyd, fel y bo'n briodol
- y broses dderbyn ar gyfer cohort 2020/21
- ac ystyriaethau eraill ar gyfer cohort 2020/21.

Bydd y trafodaethau'n parhau rhwng Llywodraeth Cymru a phartneriaethau AGA ar faterion penodol nad yw'r ddogfen hon yn rhoi sylw iddynt, a chaiff canllawiau pellach eu cyhoeddi yn ôl yr angen.

## Paratoi ar gyfer cyfnod sefydlu: trefniadau asesu a dyfarnu SAC yn ystod blwyddyn academiaidd 2019/20

Daeth lleoliadau AGA i fyfyrwyr yng Nghymru i ben o'r wythnos yn dechrau 16 Mawrth 2020, ac felly nid oedd rhai myfyrwyr wedi gallu cwblhau'r nifer gofynnol o wythnosau o leoliad mewn ysgol.

Cafodd y trefniadau asesu lefel uchel ar gyfer dyfarnu SAC o dan yr amgylchiadau hyn eu pennu yn y canllawiau blaenorol i bartneriaethau AGA.

Lle nodir bod myfyrwyr ar lwybr clir i fodloni disgrifyddion SAC y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth mae gan bartneriaethau AGA y disgresiwn i ddyfarnu SAC. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai fod angen cymorth ar yr Athrawon Newydd Gymhwysu hynny, sy'n ychwanegol at y rhaglen dysgu proffesiynol arferol ar gyfer y cyfnod sefydlu y mae holl athrawon newydd gymhwysu yng Nghymru yn ei derbyn.

Er mwyn sicrhau bod y cohort hwn o athrawon newydd gymhwysu yn cael y cymorth priodol wrth ddechrau blwyddyn eu cyfnod sefydlu (2020/21), bydd angen i bartneriaethau AGA ddilyn y camau a amlinellir isod cyn diwedd y flwyddyn academaidd hon (2019/20):

- Bydd asesu'r bylchau mewn perthynas â gwybodaeth a sgiliau myfyrwyr, a'r camau sydd eu hangen i fynd i'r afael â nhw, yn ôl disgresiwn partneriaethau AGA. Gall partneriaethau gynnal asesiadau o'r fath ar sail eu barn a'u harbenigedd proffesiynol.
- Bydd partneriaethau AGA yn sicrhau bod unrhyw fylchau yng ngwybodaeth a sgiliau myfyrwyr o ganlyniad i bandemig COVID-19 yn cael eu nodi, a bod camau a thargedau yn cael eu hawgrymu sy'n glir ac yn ymarferol bosibl. Bydd hynny'n sicrhau bod y cymorth priodol ar gael ar ddechrau'r cyfnod sefydlu.
- Bydd partneriaethau AGA yn cefnogi myfyrwyr i gwblhau'r Proffil Dechrau Gyrfa (PDG) ar lein, gan sicrhau bod PDG y myfyriwr yn cael ei gydysgrifennu a'i fod yn adlewyrchiad gwirioneddol o anghenion datblygu unigol y myfyriwr.
- Bydd partneriaethau AGA yn rhoi gwybod i'r myfyrwyr am y camau y mae angen iddynt eu cymryd i sicrhau eu bod yn derbyn y cymorth personol gan y consortia rhanbarthol y bydd ei angen arnynt yn ystod blwyddyn eu cyfnod sefydlu. Mater i'r myfyrwyr yw sicrhau eu bod wedi cymryd y camau priodol sydd eu hangen er mwyn cael y cymorth a ddarperir gan y consortia rhanbarthol.

## **Cymorth i fyfyrwyr na ddyfarnwyd SAC iddynt ym mlwyddyn academaidd 2019/20**

Bydd asesu addasrwydd myfyrwyr i gael SAC yn ôl disgresiwn partneriaethau AGA, a gall partneriaethau gynnal asesiadau o'r fath ar sail prosesau asesu eu sefydliadau, eu barn a'u harbenigedd proffesiynol .

Mae gan bartneriaethau AGA y disgresiwn i beidio â dyfarnu SAC i fyfyriwr ar sail lefel y cyflawniad, neu lwybr clir o ran yr hyn a gyflawnir, mewn perthynas â'r naill neu'r llall/y ddau a amlinellir isod:

- gwaith academaidd
- tystiolaeth o fodloni disgrifyddion SAC o'r safonau ar sail eu profiad addysgu, hyd yn oed os na chyrhaeddwyd y trothwy 24 wythnos.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad yw'r cohort hwn o fyfyrwyr wedi gallu cwblhau cyfnod arferol o brofiad addysgu (lleoliadau) sy'n cael ei neilltuo i fyfyrwyr AGA fel arfer, er mwyn iddynt ddangos tystiolaeth eu bod wedi cyflawni safonau gofynnol SAC. I gefnogi'r cohort, bydd angen i bartneriaethau ddilyn y camau a amlinellir isod:

- Dylai partneriaethau AGA roi cyfle i'r myfyrwyr hyn ddangos tystiolaeth eu bod ar y llwybr iawn i gyflawni safonau gofynnol SAC, drwy roi cyfle iddynt gwblhau unrhyw wythnosau nad ydynt wedi'u cwblhau (yn ôl hyd arferol lleoliad eu rhaglen AGA) oherwydd i'r ysgolion gau. Fel rheol, mae gan fyfyrwyr un tymor i allu defnyddio'r amser i gwblhau hyd eu lleoliad a dangos tystiolaeth o'r hyn a gyflawnwyd mewn perthynas â'r

safonau gofynnol ar gyfer cael SAC. Caiff hynny ei adolygu yn ôl yr angen, gan ddibynnu ar y sefyllfa a geir yn ystod tymor yr hydref.

- Gall partneriaethau AGA gynnal asesiad o addasrwydd myfyrwyr i gael SAC ar sail eu cyflawniad o ran gwaith academaidd neu brofiad addysgu a wnaed (lleoliadau), neu o ran y ddau beth hyn, hyd yn oed os nad yw'r rhain yn cyrraedd trothwy llawn 24 wythnos.
- Os bydd partneriaeth yn pennu nad yw myfyriwr yn addas ar gyfer cael SAC, a hynny, ar ddiwedd trothwy 24 wythnos y profiad addysgu, neu'r un tymor a neilltuwyd i'w gyflawni, pa un bynnag sy'n cael ei gwblhau'n gyntaf, yna rhoddir y cyfle i'r myfyriwr ddilyn prosesau arferol y sefydliad.
- Mae'r prosesau sydd ar waith ar gyfer methu â chyflawni cymhwyster yn ôl disgrisiwn partneriaethau AGA, fel sefydliadau awtonomaidd.

## **Cymorth i fyfyrwyr na ddyfarnwyd SAC iddynt ac sydd methu â dychwelyd i ardal eu partneriaeth AGA**

Efallai na fydd rhai myfyrwyr wedi gallu cyflawni SAC, ac na allant fanteisio ar y cyfle i gwblhau eu profiad addysgu mewn lleoliad fel yr amlinellir yn yr adran uchod. Gallai'r myfyrwyr hynny fod yn rhai sy'n byw cryn pellter o'u partneriaeth AGA, megis myfyrwyr rhyngwladol.

Mae Llywodraeth Cymru am gefnogi eu myfyrwyr cymaint ag sy'n bosibl, a bydd yn parhau i weithio gyda phartneriaethau AGA i wybod pwy yw'r cohort penodol hwnnw a phennu'r ffordd orau o'i gefnogi fesul achos gan ddefnyddio ffordd gyffredin o weithio i sicrhau cysondeb a thegwch.

## **Cymorth ariannol ar gyfer cohort 2019/20 sy'n dechrau cyfnod sefydlu**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod efallai y bydd angen cymorth ariannol ychwanegol o dan yr amgylchiadau cyfredol er mwyn i ysgolion ddarparu cymorth mentora gwell a/neu er mwyn i fyfyrwyr gael mwy o brofiad mewn lleoliad neu ymgymryd â rhaglen astudio ychwanegol. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried unrhyw gymorth ariannol ychwanegol sydd ei angen ar y cyd â phartneriaethau AGA ac arweinwyr y consortia rhanbarthol sy'n ymdrin â'r cyfnod sefydlu, pan fydd mwy o wybodaeth ar gael.

## **Athrawon newydd gymhwyso nad ydynt yn cael statws cyflogaeth**

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio â rhanddeiliaid i sicrhau y gall unrhyw athro newydd gymhwyso (ANG), nad yw wedi gallu cael gwaith cyflogedig neu sy'n mynd i weithio i'r sector cyflenwi, gael cynnig y cyfle i gwblhau unrhyw ofynion ychwanegol y cytunwyd arnynt gan bartneriaethau AGA yn ei PDG.

## **Y broses dderbyn: gofynion mynediad 2020/21**

Bydd y broses o recriwtio myfyrwyr i gohort 2020/21 yn parhau er mwyn sicrhau parhad yn y ddarpariaeth.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod na fydd modd dilyn y broses arferol o dan yr amgylchiadau presennol. Fel sydd wedi'i nodi yn y canllawiau blaenorol i bartneriaethau, mae'r broses ddiwygiedig yn cynnwys diwygiadau i'r gofynion mynediad arferol ar gyfer darpariaeth AGA yng Nghymru.

Er mwyn sicrhau tegwch ar gyfer y gofynion mynediad i ddarpariaeth AGA yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i bartneriaethau adolygu unrhyw geisiadau a gafodd eu gwrthod yng nghylch derbyn eleni i bennu a fyddai'r prosesau dros dro ar gyfer derbyniadau a mynediad yn effeithio ar ganlyniad y ceisiadau hynny. Byddai hynny'n berthnasol i'r sawl a oedd am ddechrau rhaglen yn 2020/21 yn unig. Byddai'r gofynion mynediad safonol yn ofynnol i'r ymgeiswyr hynny sydd am ohirio dechrau rhaglen tan 2021/22, yn unol â'r meini prawf achredu.

Profion cyfwerthedd – disgwylir i'r rhain gael eu cynnal yn nes ymlaen yn yr haf os bydd y sefyllfa'n caniatáu, neu cyn gynted â phosibl ym mlwyddyn astudio 2020/21. Mae'r gofynion TGAU sydd wedi'u nodi yn y meini prawf achredu yn dweud ar hyn o bryd y dylai'r rhain fod wedi'u cwblhau erbyn i'r myfyriwr ddechrau ar raglen. I gydnabod yr amgylchiadau eithriadol, ni fydd Llywodraeth Cymru yn mynnu'r gofyniad hwn cyn i fyfyriwr gael ei dderbyn i'r cohort hwn os nad yw'r amgylchiadau yn caniatáu i'r profion ddigwydd.

Rhaid i unrhyw gynigion a wnaed ar gyfer dechrau rhaglen yn 2020/21 gynnwys canllawiau clir i fyfyrwyr, sef:

- bod bodloni'r gofynion mynediad cyfredol yn parhau ac y gallai peidio â gwneud hynny arwain at wrthod myfyrwyr rhag parhau â rhaglenni
- ar lefel y cymorth y rhoddir i fyfyrwyr fodloni'r gofynion mynediad o fewn cyfnod penodol
- bod lefel y cymorth yn ôl disgrisiwn y bartneriaeth.

Os bydd gofyn i ymgeiswyr weithio tuag at ofynion mynediad, sy'n ychwanegol at ofynion arferol y rhaglen AGA, rhaid i'r partneriaethau wneud y canlynol.

- Cyn gwneud cynnig, dylid defnyddio eu barn a'u harbenigedd proffesiynol i asesu gallu'r ymgeisydd i fodloni'r holl ofynion mynediad a SAC o fewn y cyfnod gofynnol. Mae hynny'n cynnwys eu hawl i farnu'r 'bwllch' sydd angen ei bontio ar gyfer pob un o'r gofynion mynediad a/neu nifer y gofynion y mae angen eu bodloni.
- Cynnig tri chyfle i fyfyrwyr fodloni'r gofynion mynediad
  - mae gan fyfyrwyr TAR amser llawn a rhan-amser hyd diwedd eu rhaglen i gyflawni'r gofynion
  - mae gan fyfyrwyr AGA israddedig hyd ddiwedd blwyddyn gyntaf eu rhaglen.

Profion mynediad llythrennedd a rhifedd – yn ychwanegol at yr hyn a nodwyd yn y canllawiau blaenorol, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu y bydd y profion hyn yn cael eu gohirio er mwyn gallu dechrau rhaglen astudio 2020/21. Bydd partneriaethau yn asesu cyrhaeddiad myfyrwyr dros gyfnod hyd eu rhaglen AGA.

## **Pethau i'w hystyried ar gyfer cohort 2020/21**

Mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r sefyllfa bob dydd yn unol â chynngor gan lechyd Cyhoeddus Cymru, ac mae'n cydnabod y gallai rhywfaint o hyblygrwydd, fel oedd yn ofynnol ar gyfer cohort 2019/20, fod yn ofynnol ar gyfer cohort 2020/21 hefyd. Gallai'r hyblygrwydd hwnnw gynnwys, er enghraifft, barhau i hepgor gofynion y meini prawf achredu ar hyd lleoliad profiad addysgu. Gallai materion eraill anhysbys godi hefyd, a bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i roi cymorth priodol ar waith ar gyfer ein partneriaethau a/neu ein myfyrwyr yn ystod y cyfnod digyffelyb hwn.

## Y camau nesaf

- Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r sefyllfa bob dydd, yn unol â chyngor Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Cyhoeddir canllawiau pellach yn unol ag unrhyw newidiadau i gyngor gan y cyrff perthnasol.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda phartneriaethau AGA i ddatblygu canllawiau pellach fel y bo'n ofynnol. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfodydd bob pythefnos gyda phartneriaethau AGA, a gallent gynnwys aelodau eraill o'r haen ganol, i fynd i'r afael â datblygiadau, diweddariadau ac unrhyw faterion sy'n codi mewn modd effeithiol.
- Rhaid i bartneriaethau AGA roi gwybod i Lywodraeth Cymru ar unwaith am unrhyw faterion eraill sy'n codi yn ystod y cyfnod hwn, fel y gellir cyhoeddi canllawiau pellach.

I gael y cyngor diweddaraf gan Lywodraeth Cymru, ewch i [llyw.cymru/coronafeirws](http://llyw.cymru/coronafeirws)